Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 26.03.2021

## Diweddariad cyfyngiadau

Cadarnhaodd cyhoeddiad Llywodraeth Cymru heddiw, o yfory, ddydd Sadwrn, 27 Mawrth 2021:

- Bydd llety gwyliau hunangynhwysol, gan gynnwys gwestai â chyfleusterau en-suite a gwasanaeth ystafell, yn gallu ailagor i bobl o'r un aelwyd neu swigod cymorth.

- Bydd y rheol aros yn lleol yn cael ei disodli gan ardal deithio dros dro i Gymru gyfan, a fydd yn parhau i fod ar waith tan 12 Ebrill 2021, yn amodol ar sefyllfa iechyd y cyhoedd. Dim ond gydag esgus rhesymol, fel gwaith, y caniateir teithio i Gymru ac oddi yno yn ystod y cyfnod yma.

- Rhaid i fusnesau twristiaeth a lletygarwch roi pob mesur rhesymol ar waith i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r feirws ac ni ddylent dderbyn cwsmeriaid os ydynt yn ymwybodol eu bod yn torri'r rheolau ar gyfyngiadau teithio.

I ddarllen y cyhoeddiad, ewch i:

https://llyw.cymru/sector-twristiaeth-cymru-yn-dechrau-ailagor-wrth-i-gyfyngiadau-gael-eu-llacio

Mae mwy o wybodaeth am hyn ar gael yn newyddlen diweddaraf Croeso Cymru, ewch i:

http://bit.ly/NewCroesoCymru26Maw2021

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru i fusnesau twristiaeth a lletygarwch i gadw gweithwyr ac ymwelwyr yn ddiogel yn ystod pandemig coronafeirws (COVID-19) wedi eu diweddaru ddoe, 25 Mawrth 2021, ewch I:

https://llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-busnesau-twristiaeth-a-lletygarwch-coronafeirws

## Manwerthwyr: diweddariad canllawiau coronafeirws

Mae Llywodraeth Cymru wedi diweddaru eu canllawiau ar sut i weithio'n ddiogel yn ystod pandemig COVID-19 os ydych yn gweithio neu'n cyflogi pobl mewn amgylchedd manwerthu. Ewch i:

https://llyw.cymru/manwerthwyr-canllawiau-coronafeirws

## Arolwg Cymunedol Amgueddfa Lloyd George

Mae Gwasanaeth Amgueddfeydd a Chelfyddydau Cyngor Gwynedd yn cynnal adolygiad busnes o Amgueddfa Lloyd George er mwyn cefnogi ei ddatblygiad a'i gynaliadwyedd yn y dyfodol. Fel rhan o'r adolygiad, mae'r rhai sydd wedi ac nad ydynt wedi ymweld ag Amgueddfa Lloyd George, yn cael eu gwahodd i gwblhau holiadur. I gymryd rhan, ewch i:

https://arolwg.gwynedd.llyw.cymru/index.php/533557?lang=cy

## Hyrwyddwch eich busnes i 6,000+ o weithwyr Cyngor Gwynedd

Mae dros 200 o fusnesau yn barod yn hyrwyddo eu hunain i 6,000+ o weithwyr Cyngor Gwynedd trwy Gynllun Hybu Busnesau Lleol y Cyngor. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Meinir Griffiths:

Ffôn: 01286 679103 neu 07920331962

E-bost: MeinirGriffiths@gwynedd.llyw.cymru

## Cronfeydd Busnes Cyfyngiadau yn cau 31 Mawrth 2021

Bydd Cronfeydd Busnes Cyfyngiadau Mawrth/Ebrill 2021 ar gyfer busnesau sy'n atebol am Ardrethi Annomestig yn cau am 5:00pm ddydd Mercher, 31 Mawrth 2021. Gall busnesau nad ydynt eisoes wedi cael cymorth ar gyfer effaith y cyfyngiad dros fis Mawrth/Ebrill, barhau i gofrestru ar gyfer cymorth drwy fynd i:

http://bit.ly/CronBusCyfEbrill2021

Bydd Grant Dewisol Chwefror/Mawrth 2021 ar gyfer busnesau nad ydynt yn atebol am Ardrethi Annomestig, neu sy'n anghymwys i gael y grantiau Ardrethi Annomestig, hefyd yn cau am 5:00pm ddydd Mercher, 31 Mawrth 2021. Gall busnesau nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny, wneud cais am gymorth ar gyfer effaith y cyfyngiad dros fis Chwefror/Mawrth, drwy fynd i:

http://bit.ly/CronCyfMawrth2021

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru